Prifysgolion Cymru Universities Wales

Arweiniad i addysg uwch yng Nghymru

# Pweru economi Cymru



# Pweru economi Cymru

## Yn 2019/20 creodd prifysgolion Cymru dros £5.3 biliwn o allbwn

## £661m

£661 miliwn mewn enillion allforio, sy'n cyfateb i 11.8% o holl enillion allforio sector gwasanaethau Cymru

## £2.8bn

£2.8bn mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) i Gymru trwy eu gwariant a gwariant myfyrwyr a'u hymwelwyr - sy'n cyfateb i 4.2% o GYG Cymru yn 2019.

## £1.6bn

£1.6bn o'u hallbwn eu hunain, gyda'u gweithgareddau'n creu £3.7bn ychwanegol o allbwn ar gyfer economi Cymru.

## Mae prifysgolion yn rhan annatod o economi Cymru, gan ddarparu cyflogaeth a chreu gweithgareddau economaidd eraill.

Mae'r addysgu a gynhelir gan brifysgolion yn hanfodol i wella sylfaen sgiliau'r genedl, ac mae'r gwaith ymchwil yn bwysig o ran cynorthwyo busnesau.

> Mae pob prifysgol yng Nghymru yn Gyflogwyr Cyflog Byw achrededig - yr unig sector addysg uwch yng ngwledydd y DU sydd wedi cyflawni'r statws hwn.

Mae Cymru'n perfformio'n dda o ran busnesau sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion. Mae prifysgolion yn cynnig cefnogaeth yn amrywio o ofod swyddfa i fwrsariaethau i helpu gyda chostau sefydlu a mentora gan diwtoriaid a staff menter ymroddedig. Mae'r arolwg blynyddol o Gydweithrediad Rhwng Addysg Uwch, Busnesau a Chymunedau yn canfod yn gyson bod Cymru'n perfformio'n well na gweddill y DU o ran nifer y busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion per capita. Hefyd, mae'r cwmnïau hynny'n fwy tebygol o bara tair blynedd neu fwy, o gymharu â'r rheiny sydd mewn rhannau eraill o'r DU. Cymru hefyd sydd âr gyfradd uchaf o fusnesau newydd gweithredol a sefydlwyd gan raddedigion yn y DU, gyda busnesau o'r fath yng Nghymru'n cyfrif am 13.25% o gyfanswm y DU.

Canfu astudiaeth a gynhaliwyd yn 2019/20 i effaith economaidd prifysgolion yng Nghymru fod prifysgolion Cymru wedi cynhyrchu dros £5 biliwn o allbwn.

### Allbwn

£1.64 biliwn o allbwn uniongyrchol prifysgolion trwy eu gweithgareddau, gan gynhyrchu £2.1 biliwn arall o allbwn canlyniadol ar gyfer economi'r DU, gyda'r rhan fwyaf ohono (£1.57bn) yn dod yn ôl i ddiwydiannau yng Nghymru.

Hynny yw, llwyddodd pob £1 miliwn o allbwn prifysgolion Cymru yn 2019/20 i greu effaith allbwn eilaidd arall o £0.96 miliwn yng Nghymru, ynghyd â £0.33 miliwn arall y tu allan i Gymru, yng ngweddill y DU.

## Swyddi

Darparodd prifysgolion yng Nghymru 20,730 o swyddi, oedd yn eu tro'n creu 47,887 o swyddi y tu allan i brifysgolion.

Roedd cyfanswm yr effaith wedi'i chyfuno ar gyflogaeth yn sgil prifysgolion a'u myfyrwyr yng Nghymru yn 61,722 o swyddi.  Roedd hyn gyfwerth â 4.8% o holl swyddi gweithwyr Cymru yn 2018

## GYG

Creodd prifysgolion Cymru, ynghyd â'u myfyrwyr ac ymwelwyr rhyngwladol cysylltiedig, Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) o dros £2.8 biliwn i Gymru, sy'n cyfateb i 4.2% o gyfanswm GYG Cymru yn 2019.

## Enillion allforio

Yn 2019/20 denodd prifysgolion Cymru bron i 22,000 o fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU. Cyfanswm ffioedd dysgu a gwariant myfyrwyr rhyngwladol oddi ar y campws oedd £661m, sy'n cyfateb i oddeutu 11.8% o holl enillion allforio sector gwasanaethau Cymru.

